# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

**Cynghorydd: Sian Gwenllian** **Grŵp: Plaid Cymru**

**Ward: Y Felinheli**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
Gweithredais fel cynghorydd lleol dros Y Felinheli.
Cefais fy mhenodi gan y Cabinet fel Pencampwr Busnesau Bach Gwynedd, yr unig sir i gael pencampwr yn y sector yma sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i fusnesau bach fel asgwrn cefn yr economi leol.
Roeddwn yn aelod o nifer o bwyllgorau a bum yn mynychu digwyddiadau gwybodaeth a hyfforddiant ac yn cynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiadau ac ar gyrff allanol amrywiol.

**Gweithgareddau etholaethol:**
<u>Cysylltu gyda etholwyr</u> : Sesiwn galw-heibio bob bore Gwener. Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig a mynychu'r Cyngor Cymuned bob mis. Cylchlythyr cyson i etholwyr. Anfon newyddion wefan Felinheli.org, tudalen Facebook y pentref, papur bro'r Goriad, y wasg leol.
<u>Materion cynhennus</u>: tir-lithriad ger Hen Gei Llechi; cau llwybr cyhoeddus Stepiau Cei; bwriad National Grid i godi peilonau ar draw y Fenai; ffordd osgoi Caernarfon/Bethel
<u>Ceisiadau cynllunio</u> : gan gynnwys adeilad yr Half Way, Parc Haul Parcia, Cae Fodol. Prosiect Llwybr yr Arfordir drwy'r Faenol.
<u>Materion datblygol</u> : maes parcio cymunedol neuadd yr Eglwys; toiledau Lan y Mor; gwella llwybr Rowen; cefnogi prosiect Caban Felin( Men's Sheds)
<u>Mentrau cymunedol</u>: ymgyrchoedd casglu sbwriel Felin Daclus; Trysorydd Y Felin Sgwrsio; aelod o Bwyllgor Gwyl Y Felin, aelod o Grŵp Iaith Y Felinheli; mynychu cyfarfod blynyddol Tregwylan.
Cynnal bore Coffi Macmillan & bore coffi codi arian yn sgil trychineb Nepal; cefnogi ymgyrch ariannol y Cylch Meithrin.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**
Gwirfoddoli gyda Banc Bwyd Caernarfon
Cefnogi disgyblion ysgol Maesgeirchen yn eu hymgyrch i gadw cludiant ysgol

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 5 |
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 5 |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 1 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 2 |
| Pwyllgor Cynllunio | 2 |
| Pwyllgor Iaith | 4 |
| Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion | 4 |
| Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 4 |
| Fforwm Ardal Ogwen | 3 |

Canran Presenoldeb: 91%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:**
**-**

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**
Cyfarfodydd Grŵp Ymgysylltu Cyngor Gwynedd
Gweithdy Ad-drefnu Llywodraeth Leol
Seminar Llety Sipsiwn a Theithwyr
Lansio Fforwm Mentrau Cymunedol (Medi 25)
Agoriad Canolfan Y Bont, Penygroes
Gweithgor Craffu Arbedion (Hydref 28)
Lansio Strategaeth Iaith Gwynedd (Tachwedd 19)
Cyfarfod cyhoeddus Her Gwynedd ( Tachwedd 20)
Gweithgor Amrywiaeth ( Mawrth 10)

| Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol: | Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol: |
|---|---|
| Grŵp Busnes Partneriaeth Economaidd Gwynedd<br>GISDA<br>Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon (Cadeirydd Corff Llywodraethwyr)<br>Ysgol Gynradd Y Felinheli (Llywodraethwr Ysgol) | Cyd-bwyllgor GWE (Gorff 9)<br>Cynhadledd Iaith ac Economi (Medi 17)<br>Cynhadledd WLGA 2014<br>Cynhadledd Credyd Cynhwysol Prifysgol Bangor<br>Wythnos Fusnes Gwynedd<br>Mewn llawer o gyfarfodydd gyda busnesau bach, cynrychiolwyr Ffederasiwn y Busnesau Bach, Rhwydwaith Busnes Gwynedd, Prifysgol Bangor. |

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Llywodraethu Effeithiol | 09/04/2014 |
| Diogelu Plant ac Oedolion Bregus | 07/05/2014 |
| Gweithdai Diogelu Plant ac Oedolion Bregus | 24/06/2014 a 4/7/2014 |
| Hyfforddiant Gwe ddarlledu | 26/11/2014 |
| Arwain yn Ddiogel | 5/12/2014 |
| Y drefn newydd Categoreiddio Ysgolion | 14/01/2015 |
| | |
| **Ychwanegol** | **Dyddiad** |
| Hyfforddiant Cynllunio | 21/05/2014 |
| Gweithdy Amddiffyn Plant | 24/06/2014 |
| Gweithdy Rhagarweiniol Cyfryngau Cymdeithasol | 8/7/2014 |
| Pendantrwydd a Delio hefo Pobl Anodd | 20/03/2015 |
| Rheoli Amser a Ymdopi efo Straen | 17/04/2015 |

Cyfanswm nifer o oriau: 32 awr